

Adroddiad Pennaeth Menter Iaith Abertawe a Thŷ Tawe 2019

Ar ddiwedd blwyddyn cytundeb arall, mae'n amser adrodd ar yr holl brysurdeb sydd wedi bod dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod.

2018-19

Cafwyd blwyddyn brysur arall yn y Fenter a'r ganolfan. Erbyn canol Ebrill, byddwn yn dechrau llunio adroddiad y Llywodraeth yn nodi'r holl weithgarwch sydd wedi bod. Er i'r Fenter gwrdd â'r rhan fwyaf o'r targedau, disgwylir y bydd rhai o dargedau'r Swyddog Datblygu ychydig yn brin oherwydd y newidiadau staffio a fu ar hyd y flwyddyn.

Lansiwyd ap Cwtsh ym mis Ebrill a chafwyd sylwadau cadarnhaol iawn am yr ap. Cwrddwyd â'r targedau o dan nawdd y Llywodraeth am brosiect arloesol, ac o fewn 3 mis i'r lansiad lawrlwythwyd yr ap dros 1,500 o weithiau ar blatfformau Apple ac Android.

Fis Mai, cynhaliwyd lansiad swyddogol Cymraeg Byd Busnes yn Hwlfordd a chafwyd cyflwyniadau gan swyddogion busnes y de orllewin, gan gynnwys Llinos Haf sef Swyddog Busnes Abertawe Castell Nedd Port Talbot. Mae'r prosiect wedi profi'n llwyddiannus ar draws Cymru, ac er nad oes cadarnhad swyddogol eto, mae'n edrych yn debyg y bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido trydedd flwyddyn o weithgarwch.

Fis Mehefin cynhaliwyd noson LGBT yn Nhŷ Tawe. Er mai nifer fach o bobl a ddaeth, gosodwyd sylfaen i adeiladu arni. Awgrymwyd mai Menter Iaith Abertawe oedd y fenter gyntaf i gynnal y fath ddigwyddiad o fewn y rhwydwaith. Croesawyd siaradwyr gwahanol ac adloniant gan Niem.

Am y tro cyntaf, croesawyd Ras yr Iaith i sir Abertawe pan gynhaliwyd y ras yn rhan o ddathliadau'r Siarter Iaith yn Ysgol Gellionnen ym mis Gorffennaf. Codwyd tua £500 i fynd at y gronfa ganolog i fudiadau ar draws Cymru geisio am grantiau.

Dros yr haf, buodd y Fenter yn llwyddiannus yn ei chais am grant oddi wrth Loteri'r Cod Post i gyllido prosiect Hen Blant Bach, sef cysylltu plant mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd â chartrefi'r henoed i wneud gweithgareddau ar y cyd. Buodd cryn oedi cyn derbyn y nawdd ond dechreuodd Rhian Atherton ar y gwaith ym mis Ionawr. Ar ôl cyfnod o ymchwilio a chynllunio, cynhelir y sesiynau cyntaf tua diwedd Ebrill.

Digwyddiad mawr olaf y flwyddyn oedd yr Ŵyl Croeso ar ddechrau mis Mawrth. Er nad oedd yr haul yn tywynnu, doedd dim eira na gwynt i amharu ar bethau eleni. Roedd y Fenter a'r Siop wedi cynnal gweithgareddau yn y Cwtsh Croeso, a chafodd y Fenter rôl ymgynghorol yn y trefniadau. Bydd cyfarfod adborth yn yr wythnosau nesaf i drafod unrhyw newidiadau neu welliannau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Unwaith yn rhagor, mae staffio wedi bod yn her ar hyd y flwyddyn. Ar ôl cryn amser gyda'r Fenter, ffarweliwyd ag Eleri Griffiths wrth iddi symud i S4C yn yr Egin yng Nghaerfyrddin fel Swyddog Cyfathrebu ym mis Mehefin. Llenwodd Nia Parr-Williams y blwch nes iddi hi dderbyn swydd clerc cyngor tref ym mis Medi. Dymunwn bob lwc iddyn nhw yn eu rolau newydd.

Penodwyd Richard Gregory yn Swyddog Datblygu llawn amser a dechreuodd yn ei rôl ym mis Awst, ond erbyn hyn, mae Richard wedi penderfynu hyfforddi i fod yn athro. Gadawodd Richard ei rôl

ganol Mawrth. Pob lwc wrth iddo ddechrau ar ei gwrs yn y Drindod ym mis Medi. Bydd cyfweiliadau am y rôl yn digwydd ar ddechrau Ebrill.

Ar ôl cyfnod o salwch, penderfynodd Emyr Wyn Williams sefyll lawr o rôl Swyddog Canolfan a Chymuned ddiwedd Hydref. Buodd y Fenter yn ddigon ffodus gael cymorth yn y siop tan y Nadolig ac wedyn penodwyd Bethan Davies i'r rôl yn llawn amser o Ionawr 2019 ymlaen.

Yn olaf, mae Llinos Haf wedi dechrau ar ei chyfnod mamolaeth a chroesawyd Mabon i'r byd ym mis Chwefror.

Mae cyfarwyddwyr y Fenter wedi gweld yr un faint o symud hefyd, wrth i ni ffarwelio ag Elgan Davies-Jones, Curon Davies a Huw Dylan Owen ond croesawu Jane Altham-Watkins, Ann Williams, Rhian Williams, Hannah Sams a Saran Thomas yn gyfarwyddwyr a Neil Rowlands a Rebecca Martin yn aelodau'r pwyllgor rheoli. Bydd Rebecca Martin yn sefyll lawr ym mis Mehefin yn ei rôl fel Swyddog Cymraeg Undeb Myfyrwyr prifysgol Abertawe ond byddwn yn croesawu Megan Colbourne, sef y swyddog llawn amser cyntaf i faterion Cymraeg yn hanes Prifysgol Abertawe. Diolch i Elgan, Curon, Huw Dylan a Rebecca am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd a chroeso i'r aelodau newydd! Ac wrth gwrs dymunwn bob iechyd i Heini a Jaci a gobeithio y cawn i eu gweld yn ôl ar y pwyllgor yn fuan.

Diolch i'r holl staff, cyfarwyddwyr, gwirfoddolwyr a phartneriaid am eu hymdrechion dros y flwyddyn ddiwethaf.

2019/20 a thu hwnt

Mae Llywodraeth Cymru wedi estyn y cylch cyllido am ddwy flynedd, hyd 2021. Does dim cynnydd yn y cyllid ac mae targedau ychwanegol wedi'u rhoi ar fentrau iaith ar draws Cymru. Mae Menter Iaith Abertawe yn dal i drafod y targedau gyda'r Llywodraeth.

Un o brif brosiectau'r Fenter eleni fydd cyflawni nod PQASSO ar Lefel 1. Dyw'r nod ansawdd ddim yn bodoli bellach (mae'r nod ansawdd bellach dim ond ar gyfer elusennau) ond mae Llywodraeth Cymru yn dal i ddisgwyl i fentrau iaith gyflawni'r nod.

Yn olaf, cyllid fydd yn flaenoriaeth dros y deuddeg mis nesaf. Oherwydd colli'r Gronfa Newid a dim cynnydd yn y grant craidd, mae'r Fenter yn defnyddio'r arian wrth gefn, sefyllfa na all barhau. Hefyd mae'r Fenter yn ddibynnol ar gyllid Llywodraeth Cymru, felly dylid edrych ar ffyrdd o ledu'r baich ariannol a sicrhau bod mwy nag un ffrwd incwm gan y Fenter.

Dean Baker